



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2001 Rhif 275(Cy.11)**

**2001 No.275(W.11)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

**Rheoliadau Llaeth Ysgol  
(Cymru) 2001**

**The School Milk (Wales)  
Regulations 2001**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note does not form part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2001, yn pennu mesurau gweithredu mewn perthynas ag Erthygl 14(2) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255 / 1999 ar gyd-drefnu'r farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48).

These Regulations, which come into force on 1st February 2001, lay down implementing measures in respect of Article 14(2) of Council Regulation (EC) No. 1255 / 1999 on the common organisation of the market in milk and milk products (OJ No. L160, 26.6.1999, p.48).

Mae'r Rheoliadau yn darparu y gall y Cynulliad Cenedlaethol dalu cymorth gwladol (sy'n cydtegu cymorth y Gymuned Ewropeaidd) mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i blant sy'n derbyn addysg gynradd.

The Regulations provide for payment, by the National Assembly for Wales, of national aid (supplementing European Community aid), in connection with the supply of milk and certain milk products to children receiving primary education.

Mae'r Rheoliadau yn darparu y gall y Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth gwladol mewn cysylltiad â chyflenwi uchafswm o 0.25 litr o laeth (neu o'r hyn sy'n gyfwerth â llaeth yn achos cynhyrchion llaeth penodol), fesul plentyn fesul diwrnod ysgol.

The Regulations provide that the National Assembly may grant national aid in connection with a maximum supply of 0.25 litres of milk (or milk equivalent in the case of certain milk products), per child per school day.

Y plant sy'n elwa ar gymorth gwladol o dan y Rheoliadau hyn yw'r rhai sy'n mynychu sefydliad sy'n darparu addysg gynradd ac sydd wedi'i gofrestru gyda'r Bwrdd Ymyrraeth Cynhyrchion Amaethyddol at ddibenion cynllun y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer cyflenwi cynhyrchion llaeth cymorthdaledig.

Children benefiting from national aid under these Regulations are those attending an establishment providing primary education which is registered with the Intervention Board for Agricultural Produce for the purpose of the European Community's scheme for the supply of subsidised milk products.

Mae'r Rheoliadau yn darparu bod rhaid i raddfa'r cymorth gwladol a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol gael ei gyfyngu –

The Regulations provide that the rate of national aid granted by the National Assembly shall be restricted –

- (a) yn achos cyflenwi llaeth cyflawn, i swm sy'n cynrychioli'r gwerth sterling sy'n gyfwerth â 6.2 ewro i bob 100 kilogram; neu

- (a) in the case of the supply of whole milk, to an amount that represents the sterling equivalent of 6.2 euros per 100 kilograms; or

(b) yn achos cyflenwi yr holl gynhyrchion llaeth eraill sy'n gymwys, i swm sydd i'w benderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol a'i hysbysu yn ysgrifenedig i geiswyr.

Er hynny, os oes cymorth gwladol yn cael ei roi mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth cyflawn neu laeth hanner sgim, â chyflas neu heb gyflas, i ddisgyblion cynradd heblaw'r rhai sy'n derbyn addysg feithrin neu'r rhai yng nghyfnod allweddol 2, mae'r Rheoliadau'n darparu y gall cyfanswm y cymorth hwnnw fod yn swm sy'n ddigonol er mwyn talu unrhyw gost a fuasai fel arall yn gorfod cael ei thalu gan y disgyblion hynny neu eu rhieni neu eu gwarcheidwaid o dan amgylchiadau lle nad yw cymorth y Gymuned Ewropeaidd yn talu'n llawn am gost cyflenwi'r cynhyrchion hynny.

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer talu cymorth gwladol i geiswyr gan y Bwrdd Ymyrraeth Cynhyrchion Amaethyddol fel asiant i'r Cynulliad Cenedlaethol (Rheoliad 6) ac yn darparu hefyd ar gyfer dal yn ôl ac adennill cymorth o dan amgylchiadau penodol (Rheoliad 7).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu bod y gyfradd gyfnewid gymwys rhwng yr euro a sterling sydd i'w defnyddio wrth gyfrifo cymorth gwladol i gael ei phennu o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol a'i hysbysu mewn ysgrifen i'r ceiswyr (Rheoliad 8).

(b) in the case of the supply of all other qualifying milk products, to an amount that shall be determined by the National Assembly and notified to claimants in writing.

However, the Regulations provide that where national aid is granted in connection with the supply of flavoured or unflavoured whole or semi skimmed milk to primary pupils other than those receiving nursery education or those in key stage 2, that aid may amount to a sum sufficient for the purposes of defraying any cost that would otherwise have to be borne by those pupils or their parents or guardians in circumstances where European Community aid does not fully meet the cost of supplying those products.

The Regulations provide for national aid to be paid to claimants by the Intervention Board as agent of the National Assembly (Regulation 6) and also provide for the withholding and recovery of aid in certain circumstances (Regulation 7).

The Regulations also provide that the applicable sterling / euro exchange rate to be applied for the purposes of calculating national aid shall be fixed from time to time by the National Assembly and notified in writing to claimants (Regulation 8).

**2001 Rhif 275 (Cy.11)****2001 No.275(W.11)****AMAETHYDDIAETH, CYMRU****AGRICULTURE, WALES****Rheoliadau Llaeth Ysgol  
(Cymru) 2001****The School Milk (Wales)  
Regulations 2001***Wedi'u gwneud* 30 Ionawr 2001*Made* 30th January 2001*Yn dod i rym* 1 Chwefror 2001*Coming into force* 1st February 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(a) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(b) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:-

The National Assembly for Wales being designated(a) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(b) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by the said section 2(2) hereby makes the following Regulations:-

**Teitl, cychwyn a chymhwys****Title, commencement and application**

1.-(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2001.

1.-(1) These Regulations may be cited as the School Milk (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1st February 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(2) These Regulations apply to Wales.

**Dehongli****Interpretation**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall –

2.-(1) In these Regulations unless the context otherwise requires –

mae i “addysg feithrin” yr ystyr a roddir i “*nursery education*” gan adran 117 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(c);

“the Board” (“*y Bwrdd*”) means the Intervention Board for Agricultural Produce established under section 6(1) of the European Communities Act 1972;

mae i “addysg gynradd” yr ystyr a roddir i “*primary education*” gan adran 2(1) o Ddeddf Addysg 1996 (ch);

“claimant” (“*ceisydd*”) means a qualifying educational establishment or local education authority or any other organisation which claims Community or national aid in respect of qualifying milk products on behalf of a qualifying educational establishment;

ystyr “y Bwrdd” (“*the Board*”) yw'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynhyrchion Amaethyddol a sefydlwyd o dan adran 6(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

“Community Aid” (“*cymorth Cymunedol*”) means European Community aid granted pursuant to Article 14 of the Council Regulation;

ystyr “ceisydd” (“*claimant*”) yw sefydliad addysgol cymwys neu awdurdod addysg lleol neu unrhyw gorff arall sy'n gwneud cais am gymorth Cymunedol neu

“the Commission Regulation” (“*Rheoliad y Comisiwn*”) means Commission Regulation (EC)

(a) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) (O.S. 1999/2788).

(a) By virtue of the European Communities (Designation)(No.3) Order 1999 (S.I. 1999 / 2788).

(b) 1972 p.68.

(b) 1972 c. 68.

(c) 1998 p.31.

(ch)1996.p.56

gymorth gwladol mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymwys ar ran sefydliad addysgol cymwys;

ystyr “cost cyflenwi” (“*cost of supply*”) mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymwys yw cost eu prynu plws swm y mae’n rhesymol i’r Cynulliad ystyried ei fod yn ddigonol i dalu costau caffael a gweinyddu cyflenwi’r cynhyrchion llaeth hynny;

ystyr “y costau gweddilliol” (“*the residual costs*”) yw’r costau cyflenwi, a dynnir gan brynwr mewn cysylltiad â chyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys i sefydliad addysgol cymwys, llai unrhyw gymorth Cymunedol a chymorth gwladol a gyfrifir drwy gyfeirio at reoliad 4(2)(d) a all gael ei roi mewn perthynas â’r cyflenwi hwnnw;

mae i “cyfnod allweddol 2” yr ystyr a roddir i “*key stage 2*” gan adran 355 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr “cymorth Cymunedol” (“*Community aid*”) yw cymorth y Gymuned Ewropeaidd sy’n cael ei roi yn unol ag Erthygl 14 o Reoliad y Cyngor;

ystyr “cymorth gwladol” (“*national aid*”) yw cymorth a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rheoliadau hyn yn unol ag Erthygl 14(2) o Reoliad y Cyngor;

ystyr “cynhyrchion llaeth cymwys” (“*qualifying milk products*”) yw’r llaeth a’r cynhyrchion llaeth a restrir yn yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn fel cynhyrchion sy’n gymwys ar gyfer cymorth Cymunedol;

ystyr “cynllun cymhorthdal y Gymuned Ewropeaidd” (“*the European Community subsidy scheme*”) yw cynllun y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer cyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth cymorthdaledig i ddisgyblion sy’n mynychu sefydliadau addysgol fel y mae wedi’i sefydlu gan Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn ac yn cael ei weinyddu ym Mhrydain Fawr gan y Bwrdd;

ystyr “y Cynulliad Cenedlaethol” (“*the National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “disgyblion cymwys” (“*eligible pupils*”) yw disgyblion sy’n derbyn addysg gynradd heblaw’r rhai sydd yng nghyfnod allweddol 2 neu’r rhai sy’n derbyn addysg feithrin;

ystyr “yr hyn sy’n gyfwerth â llaeth” (“*milk equivalent*”) yw’r swm a bennir yn Erthygl 5(2) o Reoliad y Comisiwn fel swm sy’n cynrychioli’r cynnwys sy’n gyfwerth â llaeth mewn cynhyrchion llaeth penodol;

ystyr “y rheolau Cymunedol” (“*the Community rules*”) yw’r rheolau a bennir gan Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn ynghylch darparu llaeth a chynhyrchion llaeth cymorthdaledig i ddisgyblion sy’n

2707 / 2000 laying down detailed rules for applying Council Regulation (EC) 1255 /1999 as regards Community aid for supplying milk and certain milk products to pupils in educational establishments(a);

“the Community rules” (“*y rheolau Cymunedol*”) means the rules concerning the provision of subsidised milk and milk products to pupils attending educational establishments, laid down by the Council Regulation and the Commission Regulation;

“cost of supply” (“*cost cyflenwi*”) in relation to qualifying milk products means the cost of purchase plus an amount which the National Assembly reasonably considers to be sufficient for the purposes of defraying the cost of procuring and administering the supply of those milk products;

“the Council Regulation” (“*Rheoliad y Cyngor*”) means Council Regulation (EC) 1255 / 1999 on the common organisation of the market in milk and milk products(b);

“eligible pupils” (“*disgyblion cymwys*”) means pupils receiving primary education other than those in key stage 2 or those receiving nursery education;

“the European Community subsidy scheme” (“*cynllun cymhorthdal y Gymuned Ewropeaidd*”) means the European Community’s scheme for supplying subsidised milk and milk products to pupils attending educational establishments as established by the Council Regulation and the Commission Regulation and administered in Great Britain by the Board;

“key stage 2” (“*cyfnod allweddol 2*”) has the meaning given to it by section 355 of the Education Act 1996(c);

“milk equivalent” (“*yr hyn sy’n gyfwerth â llaeth*”) means the amount specified in Article 5(2) of the Commission Regulation as representing the equivalent milk content of certain milk products;

“national aid” (“*cymorth gwladol*”) means aid granted by the National Assembly under these Regulations pursuant to Article 14(2) of the Council Regulation;

“the National Assembly” (“*y Cynulliad Cenedlaethol*”) means the National Assembly for Wales;

“nursery education” has the meaning given to it by section 117 of the School Standards and Framework Act 1998(d);

“primary education” (“*addysg gynradd*”) has the meaning given to it by section 2(1) of the Education

(a) OJ No. L311, 12.12.2000, p.37.

(b) OJ No. L160, 26.6.1999, p.48.

(c) 1996 c.56.

(d) 1998 c.31

mynychu sefydliadau addysgol;

ystyr “Rheoliad y Comisiwn” (“*the Commission Regulation*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) 2707/2000 sy’n nodi rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) 1255/1999 mewn perthynas â chymorth Cymunedol ar gyfer cyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol(a);

ystyr “Rheoliad y Cyngor” (“*the Council Regulation*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) 1255/1999 ar gyd-drefnu’r farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth(b); ac

ystyr “sefydliad addysgol cymwys” (“*qualifying educational establishment*”) yw sefydliad sy’n darparu addysg gynradd ac sydd wedi’i gofrestru, naill ai’n uniongyrchol neu drwy ei awdurdod addysg lleol neu gorff arall, gyda’r Bwrdd, er mwyn cymryd rhan yng nghynllun cymhorthdal y Gymuned Ewropeaidd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y’i diwygiwyd ar y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

### Rhoi cymorth gwladol

3. Yn ddarostyngedig i Reoliad 4 gall y Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth gwladol mewn cysylltiad â chyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys i ddisgyblion sy’n derbyn addysg gynradd sy’n mynychu sefydliadau addysgol cymwys.

### Amodau a chyfyngiadau sy’n gymwys ar gyfer rhoi cymorth gwladol

4.-(1) Rhaid i gymorth gwladol o dan Reoliad 3 gael ei roi yn ddarostyngedig i’r amodau a’r cyfyngiadau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Dyma’r amodau a’r cyfyngiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) –

- (a) bod y ceiswyr wedi’u cofrestru neu wedi’u cymeradwyo gan y Bwrdd at ddibenion gwneud cais am gymorth Cymunedol;
- (b) bod y Bwrdd yn cael ei fodloni bod ceisydd a sefydliad addysgol cymwys (os yw’n wahanol) yn cydymffurfio, a’u bod wedi cydymffurfio â’r rheolau Cymunedol ac unrhyw rwymedigaethau neu ofynion eraill a all fod wedi’u hysbysu iddynt gan y Bwrdd mewn cysylltiad â’u cyfranogiad yng nghynllun

Act 1996;

“qualifying educational establishment” (“*sefydliad addysgol cymwys*”) means an establishment which provides primary education and which is registered either directly or through its local education authority or other organisation, with the Board, for the purposes of participating in the European Community subsidy scheme;

“qualifying milk products” (“*cynhyrchion llaeth cymwys*”) means the milk and milk products listed in the Annex to the Commission Regulation as products eligible for Community aid; and

“the residual costs” (“*y costau gweddilliol*”) means the costs of supply, incurred by a purchaser in connection with the supply of qualifying milk products to a qualifying educational establishment, less any Community aid and national aid calculated by reference to Regulation 4(2)(d), that may be granted in respect of that supply.

(2) Any reference in these Regulations to a Community instrument is a reference to that instrument as amended on the date on which these Regulations are made.

(3) Any reference in these Regulations to a numbered regulation is a reference to the regulation so numbered in these Regulations.

### Grant of national aid

3. Subject to Regulation 4, the National Assembly may grant national aid in connection with the supply of qualifying milk products to pupils receiving primary education who attend qualifying educational establishments.

### Conditions and restrictions applying to grant of national aid

4.-(1) National aid under Regulation 3 shall be granted subject to the conditions and restrictions specified in paragraph (2).

(2) The conditions and restrictions referred to in paragraph (1) are -

- (a) that claimants are registered or approved by the Board for the purpose of claiming Community aid;
- (b) that the Board is satisfied that a claimant and a qualifying educational establishment (if different), are complying, and have complied, with the Community rules and with any other obligations or requirements that may have been notified to them by it, in connection with their participation in the European Community

(a) OJ Rhif L311, 12.12.2000, t.37.

(b) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.

cymorthdaliadau'r Gymuned Ewropeaidd;

- (c) mai 0.25 litr o laeth neu o'r hyn sy'n gyfwerth â llaeth yn ôl fel y digwydd am bob disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol am bob diwrnod ysgol fydd y swm mwyaf o gynhyrchion llaeth cymwys y gall cymorth gwladol gael ei roi ar ei gyfer yn achos unrhyw sefydliad addysgol cymwys;
- (ch)y cyfyngir y cymorth gwladol, yn ddarostyngedig i Reoliad 5 –
- (i) yn achos cyflenwi llaeth cyflawn, i swm sy'n cynrychioli'r gwerth sterling sy'n gyfwerth â 6.2 ewro i bob 100 kilogram, neu
- (ii) yn achos cyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys heblaw llaeth cyflawn, i swm sydd i'w bennu o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol a'i hysbysu mewn ysgrifen i geiswyr

### **Cymorth gwladol ychwanegol ar gyfer disgyblion cymwys**

5. Pan fydd cymorth gwladol yn cael ei roi mewn cysylltiad â chyflenwi cynnyrch llaeth cymwys sydd naill ai â chyflas neu hebdo, yn llaeth cyflawn neu'n laeth hanner sgim i ddisgyblion cymwys, gall y swm a roddir fod yn swm digonol i dalu'r costau gweddilliol a fuasai fel arall yn cael eu talu gan y disgyblion neu eu rhieni neu eu gwarcheidwaid mewn perthynas â'r cyflenwi hwnnw.

### **Talu cymorth gwladol**

6. Rhaid i gymorth gwladol a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Rheoliad 3 gael ei dalu i geiswyr gan y Bwrdd yn gweithredu fel asiant i'r Cynulliad Cenedlaethol.

### **Dal cymorth gwladol yn ôl a'i adennill**

7. Caiff y Bwrdd ddal yn ôl neu adennill oddi ar unrhyw geisydd y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw gymorth gwladol a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn os yw yn fodlon nad yw'r ceisydd neu sefydliad addysgol cymwys y mae ceisydd wedi gwneud cais mewn perthynas ag ef yn cydymffurfio neu nad yw wedi cydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a'r cyfyngiadau a bennir yn rheoliad 4(2).

### **Y gyfradd gyfnewid gymwysadwy**

8.-(1) At ddibenion cyfrifo cymorth gwladol mewn sterling, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu'r gyfradd gyfnewid rhwng sterling a'r ewro sydd i'w chymhwyso at gyfrifiad o'r fath ac, yn ddarostyngedig i baragraff (2) caiff ei diwygio o dro i dro.

(2) Cyn unrhyw ddiwygiad arfaethedig ar y gyfradd gyfnewid rhwng sterling a'r ewro yn unol â pharagraff

subsidy scheme;

- (c) that for any qualifying educational establishment, the maximum quantity of qualifying milk products in respect of which national aid may be granted shall be 0.25 litres of milk or milk equivalent as the case may be, per pupil on the school roll, per school day;
- (d) that subject to Regulation 5 national aid shall be restricted -
- (i) in the case of the supply of whole milk, to an amount representing the sterling equivalent of 6.2 euros per 100 kilograms, or
- (ii) in the case of the supply of qualifying milk products other than whole milk, to an amount that shall be determined from time to time by the National Assembly and notified to claimants in writing.

### **Additional national aid for eligible pupils**

5. Where national aid is granted in connection with the supply of a qualifying milk product which is either flavoured or unflavoured, whole or semi skimmed milk, to eligible pupils, the amount so granted, may be an amount sufficient to defray the residual costs that would otherwise be borne by such pupils or their parents or guardians in respect of that supply.

### **Payment of national aid**

6. National aid granted by the National Assembly pursuant to Regulation 3 shall be paid to claimants by the Board acting as agent of the National Assembly.

### **Withholding and recovery of national aid**

7. The Board may withhold or recover on demand from a claimant the whole or any part of any national aid granted under these Regulations where it is satisfied that the claimant or a qualifying educational establishment in respect of which a claim has been made by a claimant, is not complying or has not complied with any of the conditions and restrictions specified in regulation 4(2).

### **Applicable exchange rate**

8.-(1) For the purposes of calculating national aid in sterling, the National Assembly shall determine and may, subject to paragraph (2), periodically revise, the sterling / euro rate of exchange to be applied to the calculation.

(2) Prior to any proposed revision of the sterling / euro rate of exchange in accordance with paragraph

(1), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi o leiaf 14 diwrnod o hysbysiad ysgrifenedig i geiswyr am y gyfradd ddiwygiedig sydd i'w chymhwyso.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

*D. Elis Thomas*

30 Ionawr 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(1), the National Assembly shall provide claimants with at least 14 days written notice of the revised rate to be applied.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

30th January 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2001 Rhif275(Cy.11)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru)  
2001

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2001 No.275(W.11)**

**AGRICULTURE, WALES**

The School Milk (Wales)  
Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.


**£2.00**

W/204/04/01 ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090183-5



9 780110 901831